# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ysmygu ac Iechyd

# Cofnodion y Cyfarfod

# (Cyfarfod Blynyddol)

**Manylion am y cyfarfod:**

- **Beth:** Grŵp Trawsbleidiol ar Ysmygu ac Iechyd, dan gadeiryddiaeth John Griffiths AS
- **Pryd:** 11:00 – 11:15 Dydd Iau 9 Chwefror 2023
- **Ble**: Cyfarfod Teams

**Diben:** Cyfarfod blynyddol.

**Yn bresennol:**

1.John Griffiths AS - Senedd (Cadeirydd)
2. Simon Scheeres - ASH Cymru (Ysgrifennydd)
3. Suzanne Cass - ASH Cymru
4. Gemma Roberts - Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru
5. Joseph Carter - Asthma + Lung UK
6. Helen Poole - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (Rhoi'r Gorau i Ysmygu)
7. Andrew Bettridge (Staff Cymorth, John Griffiths AS)
8. Ryland Doyle (Staff Cymorth, Mike Hedges AS)

**Agenda:**

1. Ymddiheuriadau
2. Ethol Deiliaid Swyddi (Cadeirydd ac Ysgrifennydd).
3. Pleidlais bersonol i Ddeiliaid Swyddi.
4. Cyfrifon
5. Crynodeb o gyfarfod diwethaf y grŵp trawsbleidiol (Ymchwil Coleg y Brenin Llundain ar E-sigaréts).
6. Dyddiad y cyfarfod nesaf/nodau'r grŵp trawsbleidiol ar gyfer y dyfodol

**Cofnodion y cyfarfod:**

1. Ymddiheurodd Simon Scheeres - ASH Cymru (Ysgrifennydd) ar ran y bobl a ganlyn:

**Ymddiheuriadau: Rhun ap Iorwerth AS, Mike Hedges AS, Delyth Jewell AS, Gethin Jones - Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, Nicolas Webb - Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu, Judy Thomas - Fferylliaeth Gymunedol Cymru, Greg Pycroft - Gofal Canser Tenovus.**

2. Anfonodd Simon Scheeres o ASH Cymru (Ysgrifennydd) y pleidleisiau e-bost a ganlyn o blaid John Griffiths AS i barhau'n Gadeirydd; ac i Simon Scheeres (ASH Cymru) gymryd yr awenau gan Julie Edwards (ASH Cymru) fel ysgrifennydd.

O blaid:

**Rhun ap Iorwerth AS**
**Mike Hedges AS**
**Delyth Jewell AS,**
**Gethin Jones** - **Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant**
**Nicolas Webb - Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu**
**Judy Thomas - Fferylliaeth Gymunedol Cymru**
**Greg Pycroft - Gofal Canser Tenovus.**

3. Gofynnodd Simon Scheeres o ASH Cymru (Ysgrifennydd) am bleidlais bersonol ar gyfer Deiliaid Swyddi. Roedd y canlynol o blaid John Griffiths MS i barhau'n Gadeirydd, ac i Simon Scheeres (ASH Cymru) ddod yn ysgrifennydd.

O blaid:

**John Griffiths AS – Senedd (Cadeirydd)**
**Simon Scheeres - ASH Cymru (Ysgrifennydd)**
**Suzanne Cass - ASH Cymru**
**Gemma Roberts - Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru**
**Joseph Carter - Asthma + Lung UK**
**Helen Poole - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (Rhoi'r Gorau i Ysmygu)**
**Rylan Doyle (Staff Cymorth, ar ran Mike Hedges AS)**

4. Dywedodd Simon Scheeres (Ysgrifennydd) mai'r unig gostau a ysgwyddwyd i'r grŵp oedd mân gostau cyfieithu, sy'n cael eu talu gan ASH Cymru.

5. Soniodd Simon Scheeres (Ysgrifennydd) am ffocws y cyfarfod diwethaf (adroddiad annibynnol ar anweddu). Soniodd Simon Scheeres am ganfyddiadau allweddol yr adroddiad, a'r rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

6. Dywedodd Simon Scheeres (Ysgrifennydd) y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei drefnu cyn toriad haf y Senedd, gan mai dyma pryd y bydd diweddariadau ar gyfer cynllun cyflawni nesaf y strategaeth rheoli tybaco yn cael eu cyhoeddi (bydd y diweddariad hwn yn dylanwadu ar bwnc y cyfarfod nesaf).

Dywedodd Simon Scheeres fod y grŵp trawsbleidiol yn parhau i fod yn llwyfan da i rannu a throsglwyddo tystiolaeth.

Dywedodd Simon Scheeres fod ASH Cymru yn bwriadu ehangu cefnogaeth drawsbleidiol o fewn y grŵp, gyda ffocws ar aelodau ychwanegol o Blaid Cymru.